Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 13 Hydref 2022

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Hybrid yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr/O Bell ar **Dydd Mercher, 19 Hydref 2022** am **15:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 5 - 30
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod 20/07/2022

4. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
(i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
(ii) Aelodau'r Cabinet
(iii) Prif Weithredwr

5. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

6. Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22 — 31 - 120

7. Adolygu Targedau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-23 — 121 - 128

8. Hunanasesiad Corfforaethol — 129 - 152

9. Dogfen Gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Newydd — 153 - 188

10. Diweddariad Rhaglen Gyfalaf Chwarter 2 2022-23 — 189 - 210

11. Adroddiad Alldro Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2021-22 211 - 226

12. Protocol ar y Cyd - Cyfraddau Milltiroedd 227 - 234

13. Arweinlyfr Cyfansoddiad a Chyfansoddiad 235 - 526

14. Penodi Panel Arfarnu'r Prif Weithredwr 527 - 530

15. Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol - Newidiadau i Aelodaeth Pwyllgorau 531 - 536

16. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi 537 - 542

17. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Graham Walter i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**
A oes modd i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ddweud wrthyf beth ydym yn ei wneud fel Cyngor i recriwtio pobl i swyddi gwag?

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Elaine Winstanley i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**
A yw'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn hyderus y bydd modd inni ddiwallu gofynion gofal a chymorth ein preswylwyr agored i niwed yn ystod misoedd y gaeaf?

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Paul Davies i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**
O ystyried digwyddiadau diweddar ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y soniwyd amdanynt yn y wasg ac mewn rhaglenni dogfen, a yw'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn hyderus bod y Gwasanaethau Plant yn addas i'r diben a bod y gwasanaethau a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol?

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Alex Williams i'r Aelod Cabinet dros Gymunedau**
A yw'r Aelod Cabinet dros Gymunedau yn fodlon â'r ffordd y mae gwasanaeth sbwriel ac ailgylchu'r Fwrdeistref Sirol yn cael ei weithredu gan ddarparwr presennol y gwasanaeth; a yw'n fodlon bod y gwasanaeth yn bodloni'r cytundeb a nodir yn nhelerau'r contract; a beth mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei wneud i ymdrin â'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r gweithredwr yn ystod yr estyniad dros dro i'r contract pan fydd yna fawr ddim cymhelliant masnachol i'r gweithredwr wella'r gwasanaeth a ddarperir?

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Ian Williams i'r Aelod Cabinet dros Gymunedau**
Mae yna lawer o ddicter tuag at Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn sgil y ddarpariaeth hamdden i oedolion a phlant yng Nghaeau Newbridge sydd, i fod yn onest, yn gwbl warthus.
Hoffwn wybod pryd fydd y gwaith i droi ein prif barc yn lle cynhwysol a phleserus i deuluoedd yn dechrau, yn cynnwys gwelliannau i'r maes chwarae eilradd a darparu toiledau a chyfleusterau newid i'r anabl ynghyd ag atyniad addas fel parc sglefrfyrddio i blant hŷn a phlant yn eu harddegau.

18. Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd
Bod y Cyngor hwn:

Yn gofyn i'r Cabinet gynnal adolygiad o Bolisi a Threfniadau Derbyn i Ysgolion CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2020/2021; a Pholisi Teithio gan Ddysgwyr 2016 ac:

a. Yn nodi bod Polisi Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn caniatáu i rieni ddewis naill ai addysg gyfrwng Saesneg, addysg gyfrwng Cymraeg neu addysg seiliedig ar ffydd ar gyfer eu plentyn.
b. Yn nodi’r adroddiad i’r Cabinet ar y 23$^{ain}$ o Orffennaf 2019 sy’n datgan ym mharagraff 4.35: “*Ar gyfer disgyblion sy’n dymuno elwa ar addysg gyfrwng Cymraeg, byddai cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol yn berthnasol i’r ysgol gyfrwng Cymraeg agosaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*.”
c. Yn nodi nad yw’r adroddiad ar Gludiant o’r Cartref i’r Ysgol i’r Pwyllgor Craffu a Throsolwg 2 ar y 5$^{ed}$ o Chwefror 2020 yn sôn mai i’r ysgol gyfrwng Cymraeg agosaf *o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr* yn unig y byddai cludiant o’r cartref i’r ysgol yn berthnasol.
d. Yn nodi na chafodd y polisi hwn ei weithredu’n iawn ym mis Medi 2020 a bod disgyblion wedi cael cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol a ariannwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn anghywir, ac mai dim ond ym mis Hydref 2021 y canfuwyd y gwall hwn.
e. Yn nodi bod cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol ar gael i ddysgwyr sy’n byw yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr sy’n dymuno mynychu ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg (YGG Llangynwyd) ond yn gresynu am y cam-gyfathrebu gwallus â rhieni a gofalwyr ar y 13$^{eg}$ o Fehefin 2022 a barodd i rieni, gofalwyr a Phenaethiaid Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gyfun Llanhari gredu bod dysgwyr yn gymwys i gael cludiant o’r cartref i’r ysgol, cyn darganfod yn annisgwyl ddiwedd mis Awst na fyddent yn derbyn cludiant o’r cartref i’r ysgol, wythnos cyn i’r plant ddechrau yn yr ysgol uwchradd ac ar ôl iddynt eisoes fynychu gweithgareddau pontio Blwyddyn 6/Blwyddyn 7 a’r rhieni/gofalwyr hefyd wedi prynu gwisg ysgol.
f. Yn gresynu nad oedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn teimlo bod angen cyfleu'r gwall gweinyddol a ganfuwyd ym mis Hydref 2021 i Ysgol Gynradd Dolau; Ysgol Gyfun Llanhari a rhieni / gofalwyr er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer yr effaith y byddai dileu cludiant o’r cartref i’r ysgol yn ei chael ar addysg plant wrth drosglwyddo ym mis Medi 2022.
g. Yn croesawu’r ffaith y bydd dysgwyr sydd eisoes wedi trosglwyddo o Ysgol Gynradd Dolau i Ysgol Gyfun Llanhari cyn i’r polisi newid yn parhau i dderbyn cludiant o’r cartref i’r ysgol a ariennir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr i Ysgol Llanhari nes iddynt gwblhau eu haddysg ysgol uwchradd gan fod darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol eisoes wedi'i darparu ac, o ganlyniad, na allai CBS Pen-y-bont ar Ogwr gyfiawnhau dileu'r ddarpariaeth.
h. Yn nodi bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ynghylch hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; yn nodi bod “Teithio gan Ddysgwyr: darpariaeth statudol a chanllawiau gweithredol (2014)” Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad at addysg gyfrwng Cymraeg; ac nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn cau allan gludiant o'r cartref i'r ysgol y tu allan i'r sir.
i. Yn croesawu’r uchelgais hirdymor i roi cymhelliad i addysg Gymraeg yn y sir ond yn gresynu at effaith ymarferol Polisïau Mynediad i Ysgolion a Theithio i Ddysgwyr CBSP sydd, gyda’i gilydd, wedi peri (mewn rhai achosion) bod rhieni yn dewis tynnu eu plant allan o addysg Gymraeg oherwydd diffyg cyfathrebu ac effaith emosiynol negyddol y cynnwrf hwn yn gwahanu grwpiau cyfeillgarwch a gwahanu brodyr a chwiorydd.
j. Yn nodi bod Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol yn dal ar gael o Ysgol Gynradd gyfrwng Saesneg Abercedin yn Evanstown i Ysgol Gymunedol Tonyrefail fel rhan o Bolisi Derbyn i Ysgolion presennol CBS Pen-y-bont ar Ogwr (a threfniadau cysylltiedig), sy’n groes i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn yr ystyr ei fod yn gwahaniaethu’n weithredol yn erbyn y Gymraeg drwy wrthod i ddisgyblion o CBS Pen-y-bont ar Ogwr a oedd yn derbyn addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Dolau neu Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail gael mynediad i Gludiant tebyg o’r Cartref i’r Ysgol y tu allan i’r sir i Ysgol Gyfun Llanhari wrth drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd.

k. Yn annog CBS Pen-y-bont ar Ogwr i weithio ar y cyd â CBSRhCT i ymgysylltu'n gynnar a chyfleu i holl rieni a gofalwyr y dysgwyr hynny yn Ysgol Gynradd Dolau sy'n byw yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd NA fyddant yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol i Ysgol Gyfun Llanhari pan fyddant yn trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus ar gyfer addysg eu plant yn y dyfodol.

l. Yn nodi bod awdurdodau lleol eraill ar hyn o bryd yn cynnig rhai 'seddau talu' ar eu cerbydau cludiant o'r cartref i'r ysgol ac yn galw ar CBS Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod pob tendr contract yn y dyfodol ar gyfer gweithredwyr cludiant ysgol yn gofyn am gydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSVAR) i ganiatáu ar gyfer seddau y telir amdanynt ar gludiant ysgol.

19. Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Sylwer: Cyfarfod hybrid fydd hwn a chaiff ei recordio'n fyw. Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod yn oriel Siambr y Cyngor. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch. 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| S Aspey | W R Goode | E Richards |
| H T Bennett | RM Granville | R J Smith |
| A R Berrow | H Griffiths | JC Spanswick |
| F D Bletsoe | S J Griffiths | I M Spiller |
| S J Bletsoe | D T Harrison | T Thomas |
| JPD Blundell | M L Hughes | JH Tildesley MBE |
| E L P Caparros | D M Hughes | G Walter |
| N Clarke | RM James | A Wathan |
| RJ Collins | P W Jenkins | A Williams |
| HJ David | M R John | AJ Williams |
| C Davies | M Jones | HM Williams |
| C L C Davies | MJ Kearn | I Williams |
| P Davies | W J Kendall | MJ Williams |
| M J Evans | M Lewis | R Williams |
| N Farr | J Llewellyn-Hopkins | E D Winstanley |
| P Ford | RL Penhale-Thomas | T Wood |
| J Gebbie | J E Pratt | S Easterbrook |